Gwneud i Waith Talu: galwad am dystiolaeth ar interniaethau di-dâl

142. Ydych chi'n credu y dylai pob gwirfoddolwr gael ei ad-dalu?

Ydw ☒

143. Os wnaethoch chi ateb 'ydw', pa lefel o ad-daliad sy'n deg yn eich tyb chi?

- **costau teithio ☒**
- **costau bwyd ☒**
- **disgowntiau neu fuddion ☒**
- **costau llety ☒**
- **costau cyfarpar a deunyddiau ☒**
- **iwnifformau a dillad gwaith ☒**
- **hyfforddiant a datblygiad ☒**
- **arall (nodwch) ☒**
- **ddim yn gwybod**
- **gwell gen i beidio â dweud**

Pan fo angen un ar gyfer y rôl wirfoddoli, ni ddylai'r gwirfoddolwr dalu cost gwiriad DBS. Mae hyn yn cyd-fynd â'r siarter ar y cyd y cytunwyd arno rhwng CGGC a TUC Cymru, (CGGC a TUC Cymru 2020) sy'n nodi na ddylai gwirfoddolwyr fod yn gyfrifol am "dreuliau allan o boced". O ystyried y gall rhai gwiriadau DBS gostio hyd at £50, gall hyn fod yn

rhwystr rhag gwirfoddoli ac felly dylid ei ad-dalu yn yr un modd ag unrhyw gost arall.

144. Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynghylch gwirfoddolwyr? Os oes, nodwch y rhain isod.

Mae CGGC yn croesawu cynigion Llywodraeth y DU i wahardd interniaethau di-dâl nad ydynt yn rhan o raglen hyfforddi neu gymhwyster addysgol. Mae tystiolaeth gan The Sutton Trust yn tynnu sylw at yr effaith negyddol y mae interniaethau di-dâl neu heb dâl digonol yn ei chael ar symudedd cymdeithasol. Mae interniaethau yn arbennig o gyffredin ymhlith pobl ifanc, ond mae eu gallu i ymgymryd ag un yn aml yn gysylltiedig â sefydlogrwydd ariannol eu teulu a'u gallu i'w cefnogi.

Canfu Ymddiriedolaeth Sutton (2025):

"Roedd graddedigion a ymgymerodd ag interniaethau di-dâl yn gallu gwneud hynny oherwydd eu bod yn derbyn arian gan rieni (40%), yn byw gartref neu gyda theulu neu ffrindiau am ddim (39%), neu'n defnyddio cynilion (29%)."

Mae'r ddibyniaeth hon ar gymorth teulu a chynilion yn cyfrannu at fynediad anghyfartal, gyda 56% o raddedigion dosbarth canol yn ymgymryd ag interniaethau o'i gymharu â dim ond 36% o raddedigion dosbarth gweithiol. Rydym yn gweld gwahardd interniaethau di-dâl a sicrhau cymhwyso deddfwriaeth isafswm cyflog cenedlaethol yn allweddol i agor cyfleoedd interniaeth i drawstoriad ehangach o gymdeithas. Mae hyn yn cynnwys rhai o gefndiroedd dosbarth gweithiol, yn ogystal â grwpiau eraill sy'n draddodiadol yn wynebu rhwystrau rhag cyflogaeth, fel pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

Mae CGGC yn croesawu unrhyw gamau sy'n egluro ymhellach y gwahaniaeth presennol rhwng gwirfoddolwyr a grwpiau eraill, fel interniaid a gweithwyr. Mae gan CGGC ddiffiniad cytunedig o beth yw gwirfoddolwr, sy'n sail i'n siarter ar gyfer gwirfoddoli a pherthnasoedd yn y gweithle, gyda TUC Cymru (CGGC a TUC Cymru 2020) ac mae'n unol â diffiniad Llywodraeth Cymru o wirfoddolwr (Llywodraeth Cymru 2015):

"Mae gwirfoddoli'n cael ei gyflawni'n rhydd, o ddewis, heb unrhyw fantais ariannol ac er budd y gwirfoddolwr ac eraill yn y gymuned."

Mae hyn yn glir yn gwahanu gwirfoddoli oddi wrth waith cyflogedig, sy'n cael ei "gyfeirio gan gyflogwr ac y ceir tâl ariannol amdano" (CGGC a TUC Cymru, 2020). Mae hefyd yn gwahanu gwirfoddolwyr oddi wrth interniaid, y mae galwad y Llywodraeth am dystiolaeth yn nodi "rhaid eu talu o leiaf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol os ydynt yn cyflawni dyletswyddau sy'n eu cymhwyso fel 'gweithwyr' o dan gyfraith cyflogaeth." Ni ddylid defnyddio gwirfoddolwyr i leihau costau neu i greu elw, ond gellir defnyddio Interniaid, boed yn rhai yn derbyn tâl neu beidio, i greu elw neu i ymgymryd â thasgau tebyg i weithiwr rheolaidd.

Mae'r siarter hefyd yn nodi y dylai rolau gwirfoddoli fod yn "hyblyg ac mae modd eu haddasu" ac nid o reidrwydd yn ddarostyngedig i batrymau gweithio arferol. Unwaith eto, mae hyn yn gosod gwirfoddoli ar wahân i rôl gweithiwr traddodiadol a thrwy hynny, intern.

Er bod CGGC yn awyddus i bwysleisio na ddylid digolledu gwirfoddoli ar ffurf cyflog traddodiadol na bod yn ddarostyngedig i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, nid yw hyn yn golygu y dylid gadael gwirfoddolwyr allan o'u poced yn sgil gwirfoddoli. Mae'r siarter y cytunwyd arno â TUC Cymru yn nodi:

"Nid yw gwirfoddoli yn dod am ddim: cyllidebir adnoddau priodol ar gyfer hyfforddiant, datblygu a threuliau allan o boced gwirfoddolwyr. Mae yna fuddsoddiad er mwyn datblygu arweinwyr gwirfoddoli."

Mae hyn nid yn unig yn pwysleisio na ddylid gadael gwirfoddolwyr allan o'u poced, ond hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ariannu mudiadau gwirfoddol i gefnogi gwirfoddolwyr yn briodol, yn eu gweithgareddau gwirfoddol a thrwy gyfleoedd hyfforddi a datblygu pellach.

Mae angen cefnogaeth briodol ar gyfer gwirfoddoli hefyd i gyflawni pwynt arall yn y siarter:

"Mae rolau gwirfoddol wedi'u cynllunio i ddenu amrywiaeth o bobl, er mwyn hwyluso ymgysylltiad cymunedol ehangach."

Mae sicrhau bod cyfleoedd gwirfoddoli yn cael eu hariannu'n briodol ac nad yw costau allan o boced yn gweithredu fel rhwystr rhag cyfranogiad yn allweddol i alluogi mynediad eang i ystod amrywiol o bobl. Yn yr un

modd, drwy sicrhau cyllid digonol, gall gwirfoddoli ddarparu "mynediad at gyfleoedd datblygu a dysgu priodol" (CGGC a TUC Cymru, 2020), gan wneud gwirfoddoli yn fwy deniadol i ystod ehangach o bobl.

Mae'r cyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant priodol trwy wirfoddoli â'r fantais ychwanegol o ganiatáu i wirfoddolwyr gael sgiliau newydd na fyddent fel arall yn cael y cyfle i'w dysgu. Mae sicrhau nad yw gwirfoddolwyr yn cael eu hatal rhag cymryd rhan yn y cyfleoedd hyfforddi hyn oherwydd treuliau allan o boced yn rhan hanfodol o wneud gwirfoddoli yn hygyrch.

Yn y pen draw, mae CGGC yn croesawu camau sy'n sicrhau bod gwirfoddolwyr, gweithwyr ac interniaid yn cynnal diffiniadau gwahanol gydag amddiffyniadau cryfach. Bydd hyn yn atal ecsbloetio interniaid trwy eu dosbarthu fel gwirfoddolwyr di-dâl. Bydd hefyd yn cadw statws unigryw gwirfoddolwyr sef eu bod yn cael eu hysgogi gan yr awydd i fod o fudd i'r gymuned, gan ddarparu'r hyblygrwydd sy'n angenrheidiol i wneud hyn.